# Siart Llif

**Mae'r siart llif hwn yn crynhoi'r camau mwyaf defnyddiol y gellir eu cymryd pan fydd myfyriwr neu ymgeisydd yn datgelu beichiogrwydd.**

## CAM 1

Myfyriwr yn ymgynghori â Meddyg Teulu a gwasanaethau priodol eraill ac yn ystyried datgelu'r beichiogrwydd i'r Adran/Cyfadran, yn enwedig pan fydd elfennau o'r rhaglen astudio yn peri risg i iechyd a diogelwch y myfyriwr neu'r plentyn

## CAM 2(a)

### Myfyrwyr a Addysgir trwy Gwrs

Sefydlir cyfarfod teirochrog rhwng (1) y myfyriwr, (2) tiwtor personol y myfyriwr, neu aelod arall o staff yr adran y gellir ymddiried ynddo/ynddi, a (3) aelod o staff y Gwasanaethau Myfyrwyr i drafod goblygiadau beichiogrwydd y myfyriwr ar y cwrs.

## CAM 2(b)

### Myfyrwyr Ymchwil

Trefnir cyfarfod teirochrog rhwng (1) y myfyriwr, (2) arolygwr ymchwil y myfyriwr neu aelod arall o staff yr adran y gellir ymddiried ynddo/ynddi, a (3) aelod o staff y Gwasanaethau Myfyrwyr i drafod goblygiadau beichiogrwydd y myfyriwr ar y rhaglen astudio.

## CAM 3

Mae'r grŵp teirochrog yn ystyried goblygiadau'r beichiogrwydd ar y cwrs astudio – ac yn sicrhau bod asesiad risg priodol yn cael ei gynnal ar unrhyw elfennau o'r rhaglen astudio a allai fod yn beryglus, gan gynnwys lleoliadau gwaith ar y cwrs, astudiaeth dramor a gwaith maes.

## CAM 4

Mae'r myfyrwyr yn archwilio unrhyw oblygiadau posib yn yr hyblygrwydd y cytunwyd arno ar daliad y ffioedd dysgu gyda thîm Cyllid Myfyrwyr y Brifysgol.

## CAM 5

Mae'r Adran Academaidd (Tiwtor Personol/Arolygwr Ymchwil) a'r Gwasanaethau Myfyrwyr yn cwblhau ac yn cytuno ar Gynllun Cymorth i Fyfyrwyr sy'n manylu ar yr hyblygrwydd a'r cymorth y cytunwyd arnynt ac a fydd ar gael i'r myfyriwr.

## CAM 6

Mae'r aelod o staff sy'n goruchwylio'r trefniadau cymorth yn disgrifio'r cynllun cymorth i'r Tiwtor Personol/Arolygwr Ymchwil a'r staff addysgu a/neu fyrddau arholi perthnasol eraill, fel y bo'n briodol.

## CAM 7

Mae'r myfyriwr ac aelod o'r staff yn monitro'r cytundeb ac unrhyw asesiadau risg ar y cyd trwy gydol y beichiogrwydd ac yn cytuno ar addasiadau pellach os oes angen.